

Wrth iddynt wneud cynnydd

# Bwrw'r Bwced

## Adnoddau

- Cynwysyddion/targedau o wahanol faint, dŵr
- Amrywiaeth o wrthrychau bach i'w taflu, marcwyr dros dro

## Beth am 'Chwarae i Ddysgu'?

- Gofynnwch i'r plant archwilio taflu gwahanol wrthrychau naill ai at dargedau neu i mewn i dargedau o faint amrywiol, sydd wedi'u gosod bellter penodol i ffurdd
- Gofynnwch i'r plant ymarfer, a chofnodi beth mae pob darn o offer yn ei wneud wrth lanio
- Gofynnwch i'r plant benderfynu pa wrthrych sydd orau i'w daflu naill ai at bob targed neu i mewn i bob targed



## Cwestiynau

- Pa wrthrych sydd hawsaf i'w daflu yn eich barn chi, a pham?
- Pa darged yw'r anoddaf i gael y bêl i mewn iddo, a pham?
- Pa wrthrychau sy'n rhoio wrth iddynt lanio?

## Geiriau allweddol

- Rheolaeth, sgiliau cydsymud, cydbwysedd
- Anelu, cywir, targed, mawr, bach, at, i mewn i
- Bownsio, rhoio, llithro, stopio
- Camu ymlaen â'r droed arall
- Cymryd eu tro, teg, annheg

## Cyfleoedd i:

- adnabod priodweddau gwahanol ddarnau o offer
- ymarfer er mwyn gwella

## Diogelwch a threfn

### Sicrhewch:

- nad yw'r plant yn taflu gwrthrychau mewn modd amhriodol
- bod yr arwyneb yn lân ac yn rhydd o rwystrau

Rhowch ystod o offer ym mhob 'gardd'

## A allwch chi weld y plentyn?

- Yn adnabod priodweddau gwahanol ddarnau o offer?
  - Yn dilyn rheolau syml?
  - Yn ymarfer er mwyn gwella?

gan amlaf

weithiau

### Anogwch y plentyn i:

- archwilio priodweddau'r gwrthrych heb ei daflu at y targed
- canolbwyntio ar ganol y targed
- sefyll mor agos at y targed ag sydd ei angen er mwyn llwyddo
- ymarfer sgiliau gan ddefnyddio'r Cardiau Sgiliau Technegol

### Cyfleoedd campus

- Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol: Datblygiad cymdeithasol – deall bod rheolau'n hanfodol mewn cymuned drefnus, dysgu cymryd eu fro, deall yr hyn sy'n deg ac yn annheg
- Datblygiad Mathemategol: Trin data – didoli a dosbarthu setiau o wrthrychau gan ddefnyddio un neu ragor o feini prawf

### Anogwch y plentyn i:

- ddewis gwrthrychau anodd eu taflu, a thargedau y mae'n anodd taflu gwrthrychau atynt
- dosbarthu'r gwrthrychau a'r targedau i gategorïau, a chreu system sgorio sy'n adlewyrchu'r categorïau hynny
- taflu o safle pellach i ffwrdd
- taflu mewn amrywiaeth o ffyrdd, e.e. o lefel wahanol neu drwy wynebu cyfeiriad gwahanol, ac ati
- anelu at dargedau anodd ar y wal neu ar lefel uwch